

Julie James AS

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

13 Tachwedd 2020

Annwyl Julie

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Tachwedd 2020 ynghylch **Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020** (y Rheoliadau), yn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennym yn ein llythyr dyddiedig 22 Hydref. Gwnaethom drafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 9 Tachwedd 2020.

Mae materion sy'n ymwneud â hawliau dynol dinasyddion yn faterion arwyddocaol ac, wrth drafod yr holl is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd, rydym yn edrych yn ofalus ar bob offeryn i weld a yw'n ymyrryd, o bosibl, â hawliau dynol.

Byddwch yn ymwybodol bod y Rheoliadau hyn yn cyffwrdd â hawliau dynol landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan mai eu heffaith yw cyfyngu ar ddefnydd landlord o'i eiddo, a'i allu i fwynhau'r eiddo hwnnw, am gyfnod ychwanegol o amser. Mae Erthygl 1 Protocol 1 yn hawl gymwysedig, sy'n golygu bod yn rhaid i unrhyw ymyrraeth â'r hawl fod yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Mae'n peri pryder i ni ei bod yn ymddangos nad ystyriwyd hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1.

Rydym yn parhau i fod yn siomedig gyda'r ymatebion a gawsom hyd yma gan Lywodraeth Cymru ynghylch ein dymuniad i weld tystiolaeth o'ch asesiad bod y Rheoliadau'n cydymffurfio ag A1P1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Byddwch hefyd yn ymwybodol o'n hadroddiad ar y Rheoliadau blaenorol - **Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020** - lle y gwnaethom nodi na fu dadansoddiad ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru o hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 a sut y gellir cyfiawnhau ymyrryd â'r hawliau hyn.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

 0300 200 6565

Rydym yn cydnabod eich barn bod y rhesymeg dros y newidiadau yn sgil y Rheoliadau wedi'i nodi yn adran y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau sy'n trafod pwrpas ac effaith y ddeddfwriaeth. Serch hynny, ein barn ni yw y byddai'n fwy defnyddiol a thryloyw i'r sefydliadau cyhoeddus a dinesig pe bai'r wybodaeth yr ydych yn cyfeirio ati wedi'i strwythuro'n briodol a'i nodi fel dadansoddiad hawliau dynol yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
We welcome correspondence in Welsh or English

